

Bywgraffiadau – Dragon's Den

Lee Sharma - Prif Weithredwr Simply Do Ideas

Lee Sharma yw Prif Weithredwr Simply Do Ideas; llwyfan cydweithio B2B SaaS, a ddefnyddir i greu ecosystemau arloesedd. Mae pobl megis Forbes a'r Huffington Post wedi sôn am y cynnyrch, a chaiff ei ddefnyddio'n rhyngwladol ar draws sectorau, gan gynnwys maes addysg, y llywodraeth a gwasanaethau ariannol.

Lee sydd wedi gyrru'r busnes o'r syniad cychwynol i'w dwf, drwy lywio dau gylch buddsoddi'n llwyddiannus a ddaeth i gyfanswm o £685 mil.

Cyn hyn, bu Lee yn arwain ar ystod o raglenni rheoli newid Ewropeaidd a Llywodraethol yn ymwneud ag arloesedd, entrepreneuriaeth a thwf busnes. Wedi hynny, symudodd i'r maes addysg gan gyflwyno arloesedd gwasanaeth a chwricwlwm ar draws addysg uwch ac addysg bellach, gan gyflawni cwrs TAR a Gradd Meistr mewn Addysg Entrepreneuriaeth.

Julie Bellamy – Pennaeth Gwasanaethau Masnachol a Chleientiaid, USW

Mae Julie yn arwain ar bartneriaethau rhwng y Brifysgol a'r Diwydiant, cymorth busnes a gwasanaethau masnachol ym Mhrifysgol De Cymru, ac mae ganddi ugain mlynedd o brofiad ym maes hyrwyddo, datblygu a rheoli contractau gwasanaethau masnachol Addysg Uwch. Yn canolbwyntio ar ddatblygu busnes a rheoli perthnasau â chleientiaid, a datblygu gwasanaethau a chynhyrchion masnachol newydd, mae gan Julie brofiad arwain a rheoli ym mhob maes o wasanaethau masnachol mewn Addysg Uwch - gan gynnwys hyfforddiant proffesiynol, trosglwyddo gwybodaeth, rheoli prosiectau, gwasanaethau ymchwil contractau ac ymgynghori, cynadleddau a digwyddiadau.

Julie yw Cadeirydd fforwm Swyddogion Cyswllt Diwydiannol Cymru ar hyn o bryd, sy'n cynrychioli ac yn cefnogi agenda Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesedd ym Mhrifysgolion Cymru.

Biographies – Dragon’s Den

Lee Sharma, CEO of Simply Do Ideas

Lee Sharma is CEO of Simply Do Ideas; a B2B SaaS collaboration platform used to create innovation eco-systems. The product has been featured by the likes of Forbes and Huffington Post and used internationally across sectors including education, government and financial services.

Lee has driven the business from concept to scaleup successfully navigating two investment rounds totalling £685k.

Prior to this, Lee led various European and Government change management programmes encompassing innovation, entrepreneurship and business growth. He then moved into education delivering curriculum and service innovation across both higher and further education whilst achieving a PGCE and Masters in Entrepreneurship Education.

Julie Bellamy, Head of Commercial and Client Services, Research and Business Engagement, USW

Julie leads on University-Industry partnerships, business support and commercial services at the University of South Wales, and has twenty years experience in the promotion, development, and contract management of Higher Education commercial services.

Focussed on business development and client relationship management, and the development of new commercial products and services, Julie has leadership and management experience in all areas of HE commercial services - including professional training, knowledge transfer, project management, consultancy and contract research services, conferencing and events.

Julie is the current Chair of the Welsh Industrial Liaison Officers forum, which represents and supports the Knowledge Exchange and Innovation agenda in Welsh Universities.